# RHEOLIADAU CYFLENWADAU DŴR PREIFAT (CYMRU) 2017

Daeth y Rheoliadau uchod i rym ym mis Tachwedd 2017, ac yn disodli Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat 1991 a Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010. Prif bwyslais y Rheoliadau newydd yw diogelu'r cyflenwad o'r tarddiad i'r tap.

## EICH CYFRIFOLDEB CHI YDYW DIOGELU EICH CYFLENWAD DŴR

### Oes newidiadau a wneith eich effeithio chi?

Oes - yn ogystal â chymryd samplau o'r cyflenwad a'u dadansoddi, mae angen cynnal asesiad risg ar gyflenwadau mawr a'r rhai sy'n cyflenwi dŵr fel rhan o weithgaredd masnachol neu ddefnydd cyhoeddus (e.e. safleoedd gwersylla a charafanau, cynhyrchwyr bwyd, gwestai, hosteli, sefydliadau gwely a brecwast [gan gynnwys Airbnb], llety gwyliau, ysgolion, a thai ar osod), a bydd angen i hyn gael ei ail-wneud hyn bob 5 mlynedd. Mae'r asesiad risg yn edrych ar gyflwr eich cyflenwad dŵr preifat; mae hyn yn golygu edrych ar darddiad y cyflenwad a'r ardal o'i gwmpas i weld beth all fynd o'i ac arwain at halogi'r cyflenwad. Mae hefyd yn golygu edrych ar y tanciau storio, unrhyw systemau trin dŵr a'r gwaith plymio. Codir ffi fesul awr am gynnal asesiad risg, i gynnwys yr ymweliad, mewnbynnu data a chynhyrchu adroddiad. Tra bod samplo yn medru awgrymu unrhyw amhureddau/halogyddion a allai ddigwydd yn y dŵr, bwriad yr asesiad risg yw adnabod beth yw adnabod a nodi'r achosion posibl neu wirioneddol. Trwy wneud hyn, gellir cymryd y camau addas i ddatrys unrhyw broblemau ac felly atal y sefyllfa rhag gwaethygu neu hyd yn oed ddechrau yn y lle cyntaf.

### Oes unrhyw beth y gall perchennog/defnyddiwr y cyflenwad ei wneud i amddiffyn y cyflenwad dŵr?

Y peth pwysicaf y gallwch ei wneud yw bod yn gyfarwydd a gwarchod eich system cyflenwi dŵr, trwy sicrhau cynnal a chadw rheolaidd a darparu triniaeth yn unol â chyfarwyddiadau gwneuthurwr yr offer perthnasol.

Mae eich cyflenwad dŵr preifat yn cynnwys y tarddiad, pibell(au) sy'n cludo'r dŵr i'ch eiddo/adeilad (gan gynnwys tanciau neu gydiadau ar hyd y ffordd), ac yn olaf y gwaith plymio o fewn eich cartref neu'ch adeilad.

Dylech wybod am **bob** rhan o'r system cyflenwi dŵr fel y gallwch ddweud os oes unrhyw beth yn newid neu'n mynd o'i le. Bydd yr asesiad risg yn gofyn i chi ddarparu diagram addas o gynllun eich cyflenwad a'i fod ar gael i'w harchwilio yn ystod yr asesiad risg. Os ydych yn gyfarwydd â'ch cyflenwad bydd hyn yn eich rhoi mewn sefyllfa well i ymateb os oes newidiadau yn ansawdd y dŵr neu os bydd rhywbeth arall yn mynd o'i le. Os ydych yn rhannu'r cyflenwad neu fod eich pibellau yn rhedeg ar draws tir rhywun arall, yna byddai'n syniad da siarad gyda'r tirfeddiannwr ac eraill sy'n rhannu'r cyflenwad, fel bod gennych wybodaeth gyflawn am y system a lle'n bo'n berthnasol, gyda threfniant mewn lle i ymateb i argyfwng.

**Pa fesurau amddiffyn ddylai fod gennych ar waith?**

Mae yna lawer o fesurau syml ond pwysig y gallwch eu cymryd i amddiffyn eich cyflenwad. Dylai'r rhain gynnwys:

- ✓ Ffensio o amgylch y tarddiad fel na all anifeiliaid fynd i mewn a halogi'r cyflenwad neu unrhyw danciau storio yn y system. Dylai'r ffens fod o leiaf 4 medr o gylchedd y tarddiad.
- ✓ Sicrhau bod y tarddiad ac unrhyw danciau wedi eu gorchuddio'n dda i atal anifeiliaid ac adar rhag mynd i mewn i'r cyflenwad.
- ✓ Atal dŵr wyneb rhag mynd i mewn i'r system, yn enwedig mewn tywydd glawog.
- ✓ Sicrhau bod pibellau gorlifo a fentiau yn cael eu hamddiffyn gyda rhwyll mân i atal mynediad rhag plâu, pryfed, malwod ac ati.
- ✓ Sicrhau bod y system yn ddiogel rhag unrhyw ymyrraeth.
- ✓ Atal gwrtaith, slyri a silwair rhag mynd i mewn i'r system
- ✓ Sicrhau fod unrhyw systemau ddraenio yn gweithio'n gywir fel nad yw dŵr o suddfannau/ffosydd gerrig neu orlifion yn mynd fewn i'r system
- ✓ Os oes gennych unrhyw offer puro dŵr, dylech wirio'r canlynol: Pob ffilter a'u newid yn rheolaidd; edrych ar, a newid unrhyw fylbiau UV yn rheolaidd; glanhau'r uned UV fel ei fod yn gweithio'n fwy effeithlon; edrych ar unrhyw systemau ddosio cemegol i sicrhau ei fod yn dosio'n gywir.

**Beth mae'r asesiad risg yn ei olygu?**

Bydd Swyddog o wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd yn cysylltu â chi i drefnu ymweliad safle. Bydd angen i'r Swyddog archwilio'r cyflenwad cyfan, o'r tarddiad i dap y gegin, gan gynnwys unrhyw danciau storio a systemau trin dŵr. Defnyddir ffurflen benodedig i adnabod unrhyw risg a pheryglon i'r cyflenwad, a bydd hyn yn caniatáu rhoi graddfa risg ar gyfer y cyflenwad. O'r radd hon, ac arsylwadau a wnaed, gall y Cyngor wedyn benderfynu os bydd yn ofynnol i chi wneud unrhyw welliannau/gwaith adferol. Rhaid ail-gynnal yr asesiad risg pob 5 mlynedd.

**Beth os fydd y samplau a gymerir yn anfoddhaol?**

Os yw'r samplau'n anfoddhaol bydd y Cyngor yn ymchwilio i pam y gallai hyn ddigwydd, ac fe ddisgwylir i chi wneud y gwelliannau angenrheidiol e.e. gwarchod y tarddiad, newid bylbiau'r uned UV. Fodd bynnag, os bydd y methiant yn berygl posibl i iechyd dynol, bydd y Cyngor yn cyflwyno Rhybudd Gwelliant ar y person perthnasol i wneud y gwelliannau angenrheidiol. Hyd nes y bydd y gwelliannau yn cael eu gwneud, byddwn yn cynghori pob defnyddiwr ar sut i amddiffyn eu hunain e.e. trwy ferwi'r dŵr.

Mae arweiniad pellach ar gael ar dudalen we'r Arolygiaeth Dŵr Yfed:
http://www.dwi.gov.uk/private-water-supply/index.htm